



07 Mai 2025

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 21 Mai 2025

Annwyl Gymrawd,

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru dydd Mercher, 21 Mai 2025 am 15:00.

Am y tro cyntaf, bydd y Gymdeithas yn cynnal AGM hybrid. Bydd hyn yn caniatáu i Gymrodryr fynychu'n bersonol neu ymuno â ni ar-lein os nad ydynt yn gallu mynychu'n bersonol. **Gallwch gofrestru am y naill opsiwn neu'r llall ar gyfer y CCB [yma](#).**

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch chi i sefydlu Zoom, cysylltwch â fi:  
[clerk@lsw.wales.ac.uk](mailto:clerk@lsw.wales.ac.uk).

I weld yr Agenda a Phapurau'r cyfarfod, cliciwch [yma](#).

Os na allwch chi ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ond yn dymuno pleidleisio drwy brocsi, cliciwch y ddolen isod i gwblhau eich ffurflen Procsi erbyn 16:00 ddydd Llun 19 Mai 2025.

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/FQ2DTF/>

Yn gywir,

**Dr Haydeé Martínez-Zavala**  
Clerc i'r Cyngor  
[clerk@lsw.wales.ac.uk](mailto:clerk@lsw.wales.ac.uk)



# CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

21 Mai 2025, 15:00 - 17:00

### Agenda

0	<b>Trefniadau</b> Olivia Harrison, Prif Weithredwr	ar lafar <b>(3 m)</b>
1	<b>Croeso a Chyflwyniad</b> Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	ar lafar <b>(5 m)</b>
2	<b>In Memoriam</b> Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	ar lafar <b>(2 m)</b>
3	<b>Ymddiheuriadau am absenoldeb</b> Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	ar lafar <b>(1 m)</b>
4	<b>Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024</b> Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	ynghlwm <b>(1 m)</b>
5	<b>Cyflwyniad i Gymrodyr Anrhydeddus</b> Yr Athro Faron Moller, Ysgrifennydd Cyffredinol	CCB/2025/01 <b>(10 m)</b>
6	<b>Uchafbwyntiau'r flwyddyn</b> Olivia Harrison, Prif Weithredwr	ar lafar <b>(15 m)</b>
7	<b>Anrhydeddau, Gwobrau a dyfarniadau: Chyflawniadau Cymrodyr</b> Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	CCB/2025/02 <b>(5 m)</b>
8	<b>Cyflwyniad i Gymrodyr Anrhydeddus</b> Yr Athro Robert Beynon, Is-Lywydd – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth	CCB/2025/01 <b>(10 m)</b>
9	<b>Materion Llywodraethol:</b> <b>(a) Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24; Penodi Arholwyr Annibynnol</b> Dr Sally Davies, Trysorydd	CCB/2025/03 <b>(10 m)</b>
	<b>(b) Swyddogion, Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau sydd wedi gadael ac aelodau newydd</b> Yr Athro Faron Moller, Ysgrifennydd Cyffredinol	CCB/2025/04 <b>(10 m)</b>
10	<b>Cyflwyniad i Gymrodyr Anrhydeddus</b> Dr Sally Davies, Trysorydd	CCB/2025/01 <b>(10 m)</b>
11	<b>Ethol Cymrodyr newydd 2024/25 a Croesawu a Chyflwyno Cymrodyr yn Ffurfiol</b> Yr Athro Robert Beynon, Is-Lywydd – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth	CCB/2025/01 <b>(20 m)</b>
12	<b>Anerchiad Blynyddol gan y Llywydd</b>	ar lafar <b>(10 m)</b>
13	<b>Dyddiad y Cyfarfod nesaf</b> Dydd Mercher 20 Mai 2026	ar lafar <b>(1 m)</b>



**CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU  
THE LEARNED SOCIETY OF WALES**

**COFNODION PEDWERYDD CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL AR DDEG Y  
GYMDEITHAS  
A GYNHALIWYD YN ADEILAD SPARC A THRWY FIDEO-GYNADLEDDA  
DDYDD MERCHER, 22 MAI 2024**

**Yn bresennol:**

Yr Athro Hywel Thomas	(Llywydd)
Yr Athro Helen Fulton	(Is-Lywydd DCGC)
Yr Athro Michael Charlton	(Is-Lywydd GTPMM)
Yr Athro Terry Threadgold	(Trysorydd)
Yr Athro Faron Moller	(Ysgrifennydd Cyffredinol)

Yr Athro Alan Shore  
Dr Amira Guirguis  
Yr Athro Andrew Lewis  
Yr Athro Angharad Davies  
Yr Athro Dame Ann Dowling  
Yr Athro Anthony Cohn  
Yr Athro Antonio Gil  
Dr Aled Eirug  
Yr Athro Brian Ford-Lloyd  
Dr Ceridwen Lloyd-Morgan  
Yr Athro Chris Pearce  
Yr Athro Clair Rowden  
Yr Athro David Ian Rabey  
Yr Athro Dianne Edwards  
Dr Emma Yhnell  
Yr Athro Graeme Garrard  
Dr Haydn Edwards  
Y Parchedig Athro John Tudno  
Williams  
Yr Athro John Lazarus  
Dr Layla Jader  
Dr Lloyd Bowen  
Yr Athro Mark Taubert  
Maxine Penlington  
Yr Athro Michael Davies  
Yr Athro Syr Michael Berry  
Yr Athro Nancy Edwards

Ned Thomas  
Yr Athro Neil Thompson  
Yr Athro Nigel Brown  
Yr Athro Peter Groves  
Yr Athro Radhika Mohanram  
Yr Athro Raluca Radulescu  
Yr Athro Syr Robin Williams  
Dr Robin Gwyndaf  
Dr Rowland Wynne  
Yr Athro Eleri Pryse  
Yr Athro Simon Hands  
Yr Athro Syr Deian Hopkin  
Yr Athro Stephan Collishaw  
Yr Athro Richard R. Geoff  
Yr Athro Robert Beynon  
Yr Athro Robert Rafal  
Yr Athro Roger King  
David Allen  
Yr Athro Catrin Williams  
Dr Savyasaachi Jain  
Yr Athro Duc Truong Pham  
Yr Athro Trevor Jones  
Yr Athro Angela John  
Yr Athro Indu Deglurkar  
Yr Athro Yvonne McDermott  
Rees

Wendy Sadler  
Yr Athro Ifan Hughes  
Yr Athro Andrew Westwell  
Yr Athro Kathryn Monk  
Yr Athro Helen Nicholson  
Yr Athro Trevor Herbert  
Yr Athro Christopher Evans  
Yr Athro William Housley  
Yr Athro Matthew Griffin  
Yr Athro Gareth Roberts  
Yr Athro Julian Preece  
Yr Athro Katherine Leni  
Oglesby  
Yr Athro Qiang Shen  
Yr Athro Alka Ahuja  
Dr Sally Davies  
Yr Athro Meena Upadhyaya  
Yr Athro Uzo Iwobi  
Yr Athro Dame Jean Thomas  
Yr Athro Mari Catrin Jones  
Yr Athro Tom Crick  
Yr Athro Andrew Thomas

**77 o Gymrodyr yn bresennol**

**Yn bresennol drwy ddirprwy: 6 Chymrawd**

Yr Athro Richard Carwardine	Yr Athro Wyn Meredith	Dr Sue Niebrzydowski
Yr Athro Ceri Phillips	Yr Athro Walter Gear	Syr Emyr Jones Parry

**Hefyd yn bresennol:**

Joe Boyle	<i>(Swyddog Cyfathrebu)</i>
Fiona Dakin	<i>(Pennaeth Polisi Cyhoeddus)</i>
Lynwen Davies	<i>(Interpreter)</i>
Menna Ellis	<i>(Cynorthwydd Digwyddiadau)</i>
Fiona Gaskell	<i>(Fellowship Officer)</i>
Olivia Harrison	<i>(Prif Weithredwr)</i>
Dr Barbara Ibinarriaga Soltero	<i>(Rheolwr Rhaglen, Datblygu Ymchwilwyr)</i>
Dr Haydee Martinez Zavala	<i>(Clerc)</i>
Dr Rhian Powell	<i>(Swyddog Rhaglen, Datblygu Ymchwilwyr)</i>
Lisa Stillman	<i>(Swyddog Cyllid a Gweinyddol)</i>
Sana Wahab	<i>(Cynorthwydd Digwyddiadau - Dros Dro)</i>
Helen Willson	<i>(Pennaeth Ecwiti ac Ymgysylltu)</i>

***Agorwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 2:00pm.*****0. Cadw Tŷ**

Estynnodd y Llywydd groeso cynnes i bawb i'r pedwerydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddeg a gofyn i'r Prif Weithredwr gyfarch y rhai a oedd yn bresennol. Atgoffodd y Prif Weithredwr bawb a oedd yn bresennol yn y cnauld ac ar-lein ynghylch y rheolau cadw tŷ i sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gynnal yn llyfn ac mewn modd trefnus.

**1. Croeso a Chyflwyniad gan y Llywydd**

Croesawodd y Llywydd y rhai a oedd yn bresennol, ar-lein ac yn y cnauld, i bedwerydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddeg Cymdeithas Ddysgedig Cymru a datgan bod y cyfarfod ar agor.

Estynnwyd croeso arbennig i Gymrodyr newydd a oedd wedi'u hethol i'r Gymdeithas, ac i'r Cymrodyr eraill a oedd yn bresennol nad oeddent wedi gallu dod i un o'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol blaenorol.

Croesawodd y Llywydd Lynwen Davies, a oedd yn bresennol i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, ac atgoffodd y mynychwyr fod croeso iddynt siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y CCB.

**2. Er Coffadwriaeth**

Nododd y Llywydd fod y Cymrodyr canlynol wedi ein gadael,

- Yr Athro Alan Bull, FRSB FRSA FIIB FLSW  
1936 – 2023
- Yr Athro Tony Ford, FRSC FRSSAF FLSW FSACI  
1941 - 2024
- Yr Athro Nigel John, FEG FLSW

- 1963 – 2023
- Yr Athro David Marquand, FRHISTS FLSW FBA  
1934 – 2024
  - Yr Athro J Gareth Morris, CBE FSB FLSW FRS  
1932 - 2023
  - Yr Athro Robin Okey, FACSS FLSW FBA  
1942 – 2023
  - Alwyn Owens, MIET FLSW  
1931 – 2023
  - Yr Athro Terry Rees, DBE FACSS FLSW  
1949 – 2023
  - Yr Athro Brynley Roberts, CBE DLITT FLA FLSW  
1931 – 2023
  - Syr Brian Smith, DSC FRSC FRSW  
1933 – 2023
  - Yr Athro J Beverly Smith, FRHISTS FLSW  
1931 – 2023
  - Yr Athro Chris Williams, FRHISTS FLSW  
1963 – 2023

Cynhaliodd y rhai a oedd yn bresennol foment o dawelwch er cof amdanynt.

### **3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd 19 o ymddiheuriadau ac roedd 6 Chymrawd yn bresennol drwy ddirprwy. Byddai'r ymddiheuriadau'n cael eu rhestru ar ffurf atodiad i'r cyfarfod.

### **4. Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023**

**DERBYNIODD a NODODD** yr Aelodau Gofnodion trydydd cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ddeg y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 24 Mai 2023, a **PHENDERFYNU EU CYMERADWYO**. Byddai'r cofnodion yn cael eu harwyddo gan y Llywydd cyn gynted â phosibl.

### **5. Cyhoeddi Cymrawd Er Anrhydedd, yr Athro Syr Ian Diamond**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Athro Michael Charlton gyflwyno Syr Ian Diamond, Ystadegydd Gwladol y DU a Chyfarwyddwr y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae Syr Ian David Diamond yn ystadegydd, yn academydd, ac yn weinyddwr, a wasanaethodd fel Pennaeth ac Is-Ganghellor Prifysgol Aberdeen hyd 2018. Daeth yn Ystadegydd Gwladol y DU ym mis Hydref 2019. Fel Pennaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cymerodd gyfrifoldeb personol dros Gyfrifiad 2021 a thros fonitro ystadegau gwladol COVID. Mae penodiadau blaenorol yr Athro Syr Ian Diamond yn cynnwys Prif Weithredwr y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Cadeirydd Grŵp Gweithredol Cynghorau Ymchwil y DU, a Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Southampton. Cadeirydd Sefydliad Lloyds Banking Group ar gyfer Cymru a Lloegr, Cymrawd Gwadd yng Ngholeg Nuffield, Rhydychen. Cymrawd er Anrhydedd ym Mhrifysgol Caerdydd.

Anerchodd Syr Ian Diamond y cyfarfod drwy ei neges Fideo y gellir ei gweld [yma](#).

Mynegodd yr Athro Michael Charlton groeso a diolch i Syr Ian Diamond am ei anerchiad. Yna gofynnodd i'r Prif Weithredwr barhau â thrafodion y cyfarfod.

## **6. Uchafbwyntiau'r Flwyddyn**

Rhododd y Prif Weithredwr drosolwg o weithgareddau'r Gymdeithas dros y flwyddyn ddiwethaf. Gellir gweld y trosolwg [yma](#).

## **Cymdeithas Ddysgedig Cymru: Strategaeth 2023 – 2029**

Roedd y flwyddyn yn nodi dechrau gweithredu strategaeth newydd y Gymdeithas, a lanswyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd. Y diben elusennol yw hyrwyddo addysg, dysgu ac astudiaethau academaidd er mwyn cyfrannu at agweddau amrywiol ar ddatblygiad yng Nghymru a thu hwnt. Cenhadaeth y strategaeth 5 mlynedd gyfredol yw trosoli arbenigedd amlddisgyblaethol y Gymrodoriaeth i hyrwyddo cymuned ymchwil ac arloesi Cymru, a chefnogi ymchwil ragorol i fynd i'r afael â heriau ar raddfa fyd-eang.

## **1. Cyfrannu at Ddatrysiadau Polisi Pwysig drwy roi Cyngor annibynnol a Hwyluso Cyfnewid Gwybodaeth**

Parhaodd y Gymdeithas â'r cyfarfodydd bord gron arloesi poblogaidd, gan ganolbwyntio ar genhedloedd bach ac arloesi cynhwysol. Bu cynnydd hefyd wrth gydweithredu â'r Gynghrair Academaïa Celtaidd, a amlygwyd drwy sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Grant Cymru-Iwerddon a threfnu cyfarfod rhwng y Prif Weinidog a Chymdeithas Frenhinol Caeredin i drafod y Gynghrair. Lluniodd y Gynghrair adroddiad ar drethu a datganoli.

Cryfhawyd partneriaethau â sefydliadau fel CaSE, fel y gwelwyd yn narlith yr Athro Wendy Larner a gynhaliwyd ar y cyd. Comisiynodd y Gymdeithas hefyd ddadansoddiad gan King's College Llundain, a gyhoeddwyd o dan y teitl 'Effeithiau ymchwil o brifysgolion Cymru,' a oedd yn dangos cyflawniadau ymchwil o bwys ac yn goleuo llunwyr polisi.

## **2. Creu Amgylchedd sy'n Cefnogi Arbenigwyr Cymru - yn y Presennol a'r Dyfodol**

Dyfarnwyd grantiau ar gyfer gweithdai ymchwil, gan annog ymchwil gyrfa gynnar ar y cyd. Derbyniodd chwe ymchwilydd rhagorol fedalau am eu cyfraniadau, a ddathlwyd yn y Senedd. Tyfodd y Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar i gynnwys dros 1,000 o aelodau, yn cwmpasu pob un o'r 9 sefydliad AU yng Nghymru, a sefydliadau eraill. Mae ymagwedd Cymru gyfan y Gymdeithas yn ychwanegu gwerth at rwydweithiau eraill ac mae'n cael ei chynnwys fwyfwy yn UKRI a cheisiadau eraill am gyllid allanol. Cyflwynwyd digwyddiadau a gweminarau wedi'u teilwra i anghenion ymchwilwyr gyrfa gynnar, gan gynnwys y colocwimw cyntaf yn y cnawd a ganolbwyntiai ar "Gymru Ffyniannus" yn Abertawe ym mis Gorffennaf, gyda thros 60 o ymchwilwyr gyrfa gynnar o bob rhan o Gymru yn cymryd rhan mewn sesiynau rhwydweithio cyflym, sgysiau fflach ymchwil, a gweithdai fel sgiliau ysgrifennu cynigion. Mae'r colocwimw nesaf, ar y thema "Cymru Gysylltiedig," wedi'i drefnu ar gyfer 18 Mehefin ym Mangor.

### 3. Datblygu Cymrodoriaeth Fwy Amrywiol a Gweithgar

Cyfrannodd dros 150 o Gymrodyr yn sylweddol at gyflawni strategaeth y Gymdeithas drwy rolau amrywiol. Roedd y gweithgareddau ymgysylltu yn cynnwys derbyniadau Cymrodyr a digwyddiad a fyddai'n cael ei gynnal yn yr Eisteddfod. Mae argymhellion y gweithgor Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) wedi'u hintegreiddio, gan arwain at fwy o amrywiaeth ymhlith Cymrodyr newydd. Parhaodd yr ymdrechion i gasglu data EDI gan y Cymrodyr.

### 4. Datblygu Ein Sefydliad

Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd gyda CCAUC yn darparu cyllid craidd, gan alluogi cyflawni strategol ac adeiladu capasiti. Ychwanegwyd aelodau newydd o staff i gefnogi'r ymdrechion hyn. Diolchwyd yn arbennig i Fiona Gaskell, Swyddog y Gymrodoriaeth a oedd yn ymddeol, am ei chyfraniadau dros y chwe blynedd diwethaf.

Anogwyd cymrodyr i ddarllen y bwletin misol i gael y newyddion diweddaraf a chyfleoedd i gymryd rhan yng ngwaith y Gymdeithas.

Gorffennodd y Prif Weithredwr ei chyflwyniad a gofyn i'r Llywydd barhau ag eitem nesaf y cyfarfod.

### 7. Anrhydeddau, Gwobrau a Dyfarniadau

Diolchodd y Llywydd i'r Prif Weithredwr am y cyflwyniad diddorol a'i chanmol hi a'i thîm am eu gwaith trawiadol.

Cyn trafod cyflawniadau'r Cymrodyr, ailadroddodd y Llywydd bwynt cynharach y Prif Weithredwr ynglŷn â chylch medalau 2024, sy'n parhau i fod ar agor tan 30 Mehefin. Anogwyd y cymrodyr i enwebu cydweithwyr a ffrindiau a allai ennill medal drwy ddefnyddio'r ffurflen enwebu syml ar wefan y Gymdeithas. Mynegodd y Llywydd ei fod yn awyddus i gyhoeddi a dathlu enillwyr y medalau ym mis Tachwedd.

Cyflwynodd y Llywydd Bapur 2024/02, yn rhestru'r holl anrhydeddau a gwobrau yr oedd y Cymrodyr wedi'u derbyn dros y 12 mis diwethaf. Mynegodd y Llywydd syndod at ehangder cyflawniadau a llwyddiannau'r Cymrodyr, gan longyfarch pob Cymrawd am eu campau nodedig. Ymhlith yr uchafbwyntiau penodol roedd dau Gymrawd ar Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin a phedwar ar Restr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin. Anogodd y Llywydd y Cymrodyr i edrych ar gyflawniadau eu cydweithwyr a nododd y cyfoeth o lyfrau a chyhoeddiadau a oedd wedi cael eu hysgrifennu gan y Cymrodyr.

Ymddiheurodd y Llywydd am unrhyw fylchau yn yr adroddiad a gofynnodd i'r Cymrodyr hysbysu Joe Boyle, y Swyddog Cyfathrebu, am unrhyw anrhydeddau neu wobrau a fethwyd fel bo modd eu cynnwys ym Mwletin y Cymrodyr yn y dyfodol. Llongyfarchodd y Llywydd yr holl Gymrodyr ar ran y Gymdeithas am eu llwyddiannau rhyfeddol.

#### *Eitemau i'w Gweithredu:*

- Y cymrodyr i enwebu cydweithwyr ar gyfer cylch medalau 2024 erbyn 30 Mehefin.
- Y cymrodyr i edrych ar Papur 2024/02 a rhoi gwybod i'r Swyddog Cyfathrebu am unrhyw hepgoriadau i'w cynnwys mewn bwletinau yn y dyfodol.

Gwnaeth y Llywydd rai sylwadau i gloi a gofyn i'r Athro Michael Charlton annerch y cyfarfod.

## **8. Cyhoeddi Cymrawd Er Anrhydedd, yr Athro Fonesig Ann Dowling**

Cyflwynodd yr Athro Michael Charlton yr Athro Fonesig Ann Dowling, Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Caergrawnt, gan ddweud mai hi oedd un o fodelau rôl peirianeg ac EDI mwyaf blaenllaw Ewrop. Mae ymchwil fyd-enwog y Fonesig Ann yn canolbwyntio ar alluogi pŵer a thrafnidiaeth gan leihau difrod amgylcheddol a sŵn ar yr un pryd. Ar hyn o bryd mae'r Athro Fonesig Ann Dowling yn Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Caergrawnt ac yn Athro Emeritws Peirianeg Fecanyddol. Hi oedd Llywydd yr Academi Beirianeg Frenhinol 2014-19, Pennaeth yr Adran Beirianeg yng Nghaergrawnt 2009-14, ac mae hi wedi dal swyddi gwadd yn MIT ac yn Caltech. Mae'r Athro Dowling yn Gymrawd gyda'r Gymdeithas Frenhinol, yr Academi Beirianeg Frenhinol ac yn Gymrawd ac yn aelod o amrywiaeth o sefydliadau rhyngwladol. Mae hi wedi derbyn nifer o wobrau a doethuriaethau anrhydeddus. Mae Ann wedi gwasanaethu ar nifer o bwyllgorau ymgynghorol diwydiant a'r llywodraeth. Penodwyd Ann yn CBE am ei gwasanaethau i Beirianeg Fecanyddol yn 2002, yn DBE am wasanaethau i Wyddoniaeth yn 2007, a rhoddodd y Frenhines Urdd Teilyngdod iddi ym mis Rhagfyr 2015.

Anerchwyd y cyfarfod gan yr Athro Fonesig Ann Dowling a gellir cyrchu ei mynediad [yma](#).

Croesawodd yr Athro Michael Charlton yr Athro Fonesig Ann Dowling a diolch iddi am ei hanerchiad. Wedyn gofynnodd i'r Trysorydd, yr Athro Terry Threadgold, i barhau â thrafodion y cyfarfod.

## **9. Materion Llywodraethu**

### **9a. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**

Cyflwynodd y Trysorydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gymdeithas ar gyfer y cyfnod 01 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2023. Gellir gweld y trosolwg [yma](#). Mae'r adroddiad ar gael ar wefan y Gymdeithas, ac mae copïau caled ar gael ar gais.

### **Manylion Incwm**

Ym mis Awst 2023, roedd incwm y Gymdeithas yn fwy na £500k, gan olygu bod y Comisiwn Elusennau yn ei hystyried yn elusen fawr. O ganlyniad, mae cwmni cyfrifyddu newydd wedi cael ei gyflogi ar gost o oddeutu £3k i wella'r prosesau a'r rheolaethau ariannol. Mae'r Gymdeithas yn parhau i fod yn ddiolchgar i holl Brifysgolion Cymru am barhau i gefnogi'r Gymdeithas yn hael ac i'r Cymrodyr am eu tanysgrifiadau a'u rhoddion. Rydym wedi ymdrechu i anfonebu Cymrodyr ar ddechrau blwyddyn y Gymdeithas i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud yn brydlon. Anogir cymrodyr i ganiatáu i'r Gymdeithas hawlio Cymorth Rhodd ar eu tanysgrifiadau, a ddarparodd £8,000 yn ychwanegol y llynedd.

### **Manylion Gwariant a Chronfeydd Wrth Gefn**

Cyfanswm y gwariant am y flwyddyn oedd £569,581. Mae'r Gymdeithas yn dal digon o arian wrth gefn i fodloni ei gofynion polisi, gyda chronfeydd wrth gefn rhydd yn cynnwys cyfanswm o £422,287. Mae cronfeydd anghyfyngedig yn talu am o leiaf chwe mis o gostau craidd

(£227,500). Arweiniodd cynnydd mewn dyledwyr oherwydd tanysgrifiadau heb eu casglu at ddarpariaeth o £18,000 ar gyfer dyledion drwg. Mae ymarfer glanhau data wedi'i gynnal i sicrhau gwybodaeth gyswllt gywir ar gyfer yr holl Gymrodyr. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i'r broses anfonebu a'r wybodaeth tanysgrifio sydd ar gael i Gymrodyr. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn a'r buddsoddiadau yn unol â'r cynllun strategol newydd. Cyflwynwyd cyfrifon archwiliedig ac adroddiad blynyddol y Gymdeithas. Gwahoddwyd y cymrodyr i ofyn cwestiynau, a darparwyd opsiynau iddynt wneud hynny yn y cnawd ac ar-lein. Ymatebodd y Trysorydd i gwestiynau neu eu cyfeirio at yr aelod tîm priodol. Yna mabwysiadwyd yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn ffurfiol drwy bleidlais.

**Penderfynodd y Cymrodyr fabwysiadu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gymdeithas 2022 - 2023.**

### **Cynghorwyr Ariannol Annibynnol**

Adolygodd Azets gyfrifon y Gymdeithas ac ni chanfuwyd unrhyw faterion nac unrhyw beth oedd yn destun pryder. Wrth i'r Gymdeithas dyfu, mae angen ymagwedd fwy cydweithredol, a gall Advantage Accountancy & Advisory ddarparu'r ymagwedd honno. Gwahoddwyd y cymrodyr i ofyn cwestiynau ynghlŷn â'r cynghorwyr, gydag opsiynau i wneud hynny yn y cnawd ac ar-lein. Cynhaliwyd pleidlais i gymeradwyo yn ffurfiol Advantage Accountancy & Advisory fel archwilwyr annibynnol y Gymdeithas, a chyhoeddodd y Trysorydd ganlyniad y pleidlais.

**Penderfynodd y Cymrodyr gymeradwyo penodiad Advantage Accountancy & Advisory, yr archwilwyr annibynnol.**

**DERBYNIODD** a **NODODD** yr Aelodau bapur AGM/2024/03, Materion Llywodraethu, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, 2022/23 a Phenodi Archwilwyr Annibynnol ar gyfer 2023/24, a **PHENDERFYNU** eu cymeradwyo.

Daeth y Trysorydd â'r cyflwyniad i ben a gofyn i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, yr Athro Faron Moller, i gyflwyno'r eitem nesaf ar yr agenda.

### **9b. Swyddogion, Y Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau newydd a rhai sy'n gadael**

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol bapur AGM/2024/04. Gellir cael mynediad at ei chyflwyniad [yma](#). Pwrpas Papur AGM/2024/04 yw cyflawni rhai o ofynion cyfansoddiadol y Gymdeithas a hysbysu'r Cymrodyr ynghylch:

- Offerynnau Llywodraethu'r Gymdeithas (Siarter Frenhinol, Is-ddeddfau, a Rheoliadau)
- Canlyniad Ethol Swyddogion ac Aelodau Cyngor 2024
- Manylion am aelodaeth holl Bwyllgorau Gymdeithas Ddysgedig Cymru, gan gynnwys y Cyngor

## **Gwaith y Cyngor a Phwyllgorau 2023/24**

Eleni, yn ogystal â'r eitemau blynyddol y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw, fel cymeradwyo cyllideb 2023/24 a'r cynllun gweithgareddau cysylltiedig ac adolygu Rheoliadau a Chofrestr Risg y Gymdeithas, mae'r Cyngor hefyd wedi:

- Cymeradwyo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru a CCAUC
- Cymeradwyo cyfrifon 2022/23
- Gweithredu newidiadau i greu Cymdeithas fwy cynhwysol, gyda chefnogaeth y gweithgor Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)

## **Y Pwyllgor Gwaith**

- Bydd yr Athro Michael Charlton a'r Athro Terry Threadgold yn dod â'u cyfnodau fel Is-lywydd STEMM a Thrysorydd i ben ar ddiwedd y cyfarfod hwn. Diolchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol am eu cyfraniadau.
- Mae'r Athro Rob Beynon wedi cael ei ethol yn Is-lywydd STEMM, a Sally Davies wedi cael ei phenodi'n Drysorydd. Llongyfarchiadau i'r ddau.

## **Aelodau'r Cyngor**

- Ail-etholwyd yr Athro Kirsti Bohata am ail dymor.
- Cyfetholwyd yr Athro Ambreena Manji am ail dymor.
- Er y bydd yr Athro Terry Threadgold yn ymddiswyddo fel Trysorydd, bydd yn parhau i wasanaethu ar y Cyngor am flwyddyn olaf.
- Bydd yr Athro Michael Charlton, yr Athro Ieuan Hughes, yr Athro Alan Shore, a Dr Lynn Williams yn gorffen eu tymor ar ddiwedd y cyfarfod hwn.
- Gorffennodd yr Athro Carol Tully ei thymor ym mis Tachwedd 2023. Diolchodd yr Athro Moller i bawb am eu gwaith ar y Cyngor ac anogodd y rhai a ymgeisiodd am swyddi llywodraethu i ystyried gwneud cais eto yn y dyfodol.

## **Pwyllgor Pwrpas Cyffredinol**

- Eleni, mae'r Athro Roger King yn ymuno â'r Pwyllgor.

## **Pwyllgor Cyllid**

- Bydd yr Athro Terry Threadgold yn ymddiswyddo, Sally Davies yn dod yn Gadeirydd, a'r Athro Ann Heilmann yn ymuno â'r Pwyllgor.

## **Pwyllgor Goruchwylio Llywodraethu**

Bydd Sally Davies a'r Athro Rob Beynon yn ymuno fel aelodau Ex Officio.

## **Pwyllgor y Gymrodoriaeth**

- Bydd yr Athro Michael Charlton, Mansel Aylward, a Ieuan Hughes yn ymddiswyddo, tra bydd yr Athro Rob Beynon yn dod yn Gyd-Gadeirydd. Ceir un swydd DMCP wag, a rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn dydd Gwener yma.

## **Pwyllgor Adnoddau Dynol**

- Nid oes unrhyw newidiadau i aelodaeth y pwyllgor.

### Cynrychiolwyr Prifysgol y Gymdeithas Ddysgedig

- Yn 2013, creodd LSW rolau cynrychioliadol ym mhob Prifysgol yng Nghymru, a gafodd eu galw'n ddiweddarach yn 'Gynrychiolwyr Prifysgol y Gymdeithas Ddysgedig' neu'n URLs. Eleni, mae'r rôl wedi cael ei ffurfioli drwy gyflwyno cyfrifoldebau cytunedig, a'r enw newydd ar rai sy'n ei chyflawni yw Cenhadon.
- Bydd Cenhadon yn parhau i gefnogi Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn eu sefydliadau drwy hyrwyddo a chynnal digwyddiadau. Nod y Gymdeithas yw codi eu proffil o fewn y Gymrodoriaeth ac o fewn eu sefydliadau. Diolchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol iddynt am eu cefnogaeth barhaus.

### Pwyllgorau a Gweithgorau Eraill

- Yn ogystal â'r Pwyllgorau Llywodraethu, ceir pwyllgorau a gweithgorau eraill, fel:
  - Pwyllgorau Craffu
  - Pwyllgorau Medalau
  - Gweithgor Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI)
  - Gweithgor y Gymraeg
  - Grŵp Cynghori ar gyfer Datblygu Ymchwilwyr

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol wrth bawb fod rhestr lawn o'r aelodau ar gael ym mhapurau'r cyfarfod. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'n Clerc, Dr Haydee Martinez.

**DERBYNIODD a NODODD** y cymrodyr AGM/2024/04, Materion Llywodraethu, Swyddogion, y Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau newydd a rhai sy'n gadael.

Daeth yr Ysgrifennydd Cyffredinol â'r cyflwyniad i ben a gofyn a oedd gan Gymrodyr a oedd yn bresennol yn y cnawd neu ar-lein unrhyw gwestiynau. Ymatebodd Faron neu'r aelod tîm priodol.

Wedyn gofynnodd yr Athro Faron Moler i'r Athro Michael Charlton gyflwyno'r Cymrawd er Anrhydedd nesaf.

### **10. Cyhoeddi Cymrawd er Anrhydedd, yr Athro William D Phillips**

Cyflwynodd yr Athro Michael Charlton y Cymrawd er Anrhydedd newydd, yr Athro William D Phillips. Mae'r Athro Phillips wedi cael effaith bellgyrhaeddol ar ddatblygiad ffiseg atomig dros y deugain mlynedd diwethaf. Ef oedd y cyntaf i ddefnyddio laserau i oeri atomau, datblygiad sydd wedi chwyldroi galluedd ymchwil sylfaenol a chymwysiadau mewn Ffiseg a thu hwnt. Mae'n aelod o Academi Celfyddydau a Gwyddorau America ac Academi Gwyddorau Cenedlaethol UDA. Mae wedi ennill nifer o anrhydeddau, gan gynnwys Gwobr Nobel mewn Ffiseg 1997, Gwobr Statws Arlywyddol yr Unol Daleithiau yn 2005 a Gwobr Gwasanaeth i America yn 2006. Mae cefndir teuluol yr Athro Phillips yn cynnwys Cymru, ac mae'n hynod falch o'i gysylltiadau â'r wlad.

Rhoddodd yr enillydd Gwobr Nobel, yr Athro Phillips, anerchiad i'r cyfarfod, y gellir cael mynediad ato [yma](#).

Diolchodd yr Athro Michael Charlton i'r Athro William D. Phillips a mynegi gwerthfawrogiad am y ffaith ei fod wedi teithio o UDA i ymuno â ni, ac am ein hysbrydoli i'r fath raddau â'i araith. Wedyn, gofynnodd i'r Athro Helen Fulton barhau â thrafodion y cyfarfod.

### **11. Ethol Cymrodyr Newydd 2023/24 a Chroesawu a Chyflwyno'r Cymrodyr yn Ffurfiol**

Cyflwynodd yr Athro Helen Fulton, sef Is-lywydd (VP) y Gymdeithas ar gyfer y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau, y 43 o Gymrodyr newydd a oedd wedi cael eu hethol i'r Gymdeithas yn ystod cylch etholiad 2023-24. Gellir cael mynediad at ei chyflwyniad [yma](#).

Tynnodd yr Athro Fulton sylw at y ffaith bod y Cymrodyr newydd hyn, sy'n cynrychioli safon uchel ym maes ymchwil a bywyd dinesig yng Nghymru, yn cynnwys academyddion o brifysgolion Cymru a'r DU, awduron, ymchwilwyr ac arweinwyr o addysg uwch, o fyd y gyfraith, meddygaeth, y cyfryngau a'r celfyddydau.

Nododd yr Athro Fulton fod 19 o'r Cymrodyr a oedd newydd eu hethol yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â 2 Gymrawd a etholwyd yn flaenorol nad oeddent eto wedi llofnodi rhôl y Cymrodyr a 3 Chymrawd er Anrhydedd.

Dechreuodd y Llywydd y cyfnod sefydlu swyddogol drwy ddatgan: "*Yn enw a thrwy awdurdod Gymdeithas Ddysgedig Cymru, yr wyf yn eich derbyn yn Gymrodyr i'r Gymdeithas*"

Croesawodd yr Is-lywydd y garfan newydd o Gymrodyr a gwahodd Cymrodyr a etholwyd yn y blynyddoedd diwethaf a chyn hynny i lofnodi rhôl y Cymrodyr. (mae \* yn dangos bod Cymrodyr yn bresennol i lofnodi).

Yr Athro Alka Ahuja	*Yr Athro Yueng-Djern Lenn
Dr Seema Arif	*Yr Athro Andrew Lewis
*Dr Lloyd Bowen	Yr Athro Yvonne McDermott Rees
Yr Athro Edmund Burke	Yr Athro Paul Mealor
Yr Athro Erminia Calabrese	*Yr Athro Radhika Mohanram
*Yr Athro Anthony Cohn	Yr Athro Aimee Morgans
*Yr Athro Stephan Collishaw	Yr Athro Thomas O'Loughlin
*Yr Athro Angharad Davies	*Yr Athro Chris Pearce
Yr Athro Indu Delurkar	*Yr Athro Clair Rowden
Yr Athro Stephan Eales	Yr Athro Roiyah Saltus
*Dr Aled Eirug	Yr Athro Iram Siraj
*Dr Haydn Edwards	*Yr Athro Mark Taubert
Yr Athro Sandra Esteves	*Yr Athro Andrew Thomas
*Yr Athro Brian Ford-Lloyd	Yr Athro Agustin Valera-Medina
*Yr Athro Graeme Garrard	Yr Athro Andrew Westwell
*Yr Athro Antonio Gil	Dr Eurwyn Wiliam
Summit Goyal	*Yr Athro John G Williams
Yr Athro Peter Groves	Llyr Williams
*Yr Athro Amira Guirguis	Yr Athro Rattan Yadav

*Yr Athro Syr Deian Hopkin Yr Athro William Housley Yr Athro Michael Hughes Dr Savyasaachi Jain Yr Athro Wendy Larnar	*Dr Emma Yhnell (2022) *Yr Athro Micheal Berry (2022) Professor Dame Ann Dowling Professor William D Phillips
---	--

I gloi, dywedodd y Llywydd, "*Fel Cymrawd etholedig o Gymdeithas Ddysgedig Cymru, maent yn ymrwymo i wneud popeth o fewn eu gallu i gyflawni dibenion a chadw enw da y Gymdeithas.*"

Gorffennodd yr athro Helen Fulton drwy wahodd yr Athro Hywel Thomas i gyflwyno anerchiad blynyddol y Llywydd.

## **12. Anerchiad Blynyddol y Llywydd**

Gellir cyrchu Anerchiad Blynyddol y Llywydd [yma](#).

Mynegodd yr Athro Hywel Thomas mai pleser o'r mwyaf oedd annerch y Cymrodyr ar ddiwedd blwyddyn arall fu'n llawn digwyddiadau, cyfleoedd, heriau a newidiadau. Ailbwysleisiodd groeso cynnes y Gymdeithas i'r Cymrodyr er Anrhydedd newydd, yr Athro Ian Diamond, yr Athro Fonesig Ann Dowling a'r Athro William D. Phillips, gan gydnabod y mewnwediadau hynod ddiddorol i'w gwaith a'u gyrfaedd. Estynnodd yr Athro Thomas groeso cynnes hefyd i'r holl Gymrodyr a oedd newydd eu hethol, gan nodi'r ystod amrywiol o arbenigedd a phrofiadau y maent yn eu cynnig i gymuned y Gymrodoriaeth, ac edrychai ymlaen i weld eu cyfraniadau'n cyfoethogi gwaith y Gymdeithas. Drwy'r Anerchiad Blynyddol, cyfeiriodd y Llywydd at aelodau a phartneriaid y Gymdeithas a mynegi diolch iddynt.

**Ffurfioli'r Bartneriaeth â CCAUC:** Dechreuwyd y flwyddyn drwy ffurfioli cytundeb partneriaeth newydd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i weithredu strategaeth bum mlynedd a gyflwynwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd. Mae'r bartneriaeth hon yn garreg filltir arwyddocaol, gan atgyfnerthu statws y Gymdeithas fel sefydliad cenedlaethol creiddiol yng Nghymru. Estynnodd yr Athro Thomas ei ddiolchgarwch i staff Gymdeithas Ddysgedig Cymru, yn enwedig y Prif Weithredwr, y Cyngor a'r holl Gymrodyr am eu cyfraniadau a'u cefnogaeth. Pwysleisiodd bwysigrwydd dangos dylanwad y Gymdeithas ar ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd Cymru.

**Seremoni Fedalau Flynyddol:** Roedd seremoni fedalau flynyddol 2023 yn dathlu'r llwyddiannau eithriadol ym maes gwybodaeth ac ymchwil yng Nghymru.

*Medal Hugh Owen:* Yr Athro Tom Crick, am ei waith ym maes addysg ddigidol a diwygio'r cwricwlwm.

*Medal Frances Hoggan:* Yr Athro Siwan Davies, am ei harbenigedd mewn daearyddiaeth ffisegol a chyfathrebu ynghylch gwyddoniaeth.

*Medal Menelaus:* Yr Athro Aimee Morgans, am ei chyfraniadau at beirianeg fecanyddol a lleihau allyriadau mewn tyrbinau nwy a pheiriannau roced.

*Medalau Dillwyn:* Rhoddwyd cydnabyddiaeth hefyd am gyfraniadau gyrfa gynnar i Dr Rebecca Thomas ym maes hanes canoloesol, Dr Iestyn Woolway ym maes gwyddor yr hinsawdd a Dr Leighton Evans ym maes realiti rhithwir.

**Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar:** Gan bwysleisio pwysigrwydd cefnogi ymchwilwyr yn gynnar yn eu gyrfa, diolchodd yr Athro Thomas i'r rhai a gyfrannodd hyfforddi a mentora drwy'r Grŵp Rhwydweithio a Chynghori Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar. Nododd lwyddiant y colocwim cyntaf a gynhaliwyd yn Abertawe, ac edrychai ymlaen at y digwyddiad a fyddai'n cael ei gynnal yn fuan ym Mangor.

**Grantiau Effaith Ymchwil a Rhwydweithio:** Cyhoeddodd y Gymdeithas ddadansoddiad o astudiaethau achos effaith REF 2021 o brifysgolion Cymru, gan amlygu effaith sylweddol ymchwil yng Nghymru ar raddfa leol ac yn fyd-eang. Mae cynlluniau grant rhwydweithio'r Gymdeithas wedi cefnogi prosiectau sydd o fudd gwirioneddol i Gymru, gan ddangos pwysigrwydd grantiau bach fel cerrig camu at effaith ar raddfa fwy.

**Arloesi Cynhwysol a Chynghrair yr Academiâu Celtaidd:** Mae'r Gymdeithas wedi cynnal cyfarfodydd bord gron i drafod mentrau ar gyfer arloesi cynhwysol ac wedi cryfhau cysylltiadau â'r Academi Wyddelig Frenhinol a Chymdeithas Frenhinol Caeredin drwy Gynghrair yr Academiâu Celtaidd. Dyfarnwyd grant rhwydweithio peilot Iwerddon-Cymru, ac mae gwaith ar y gweill i sefydlu cronfa i'r dyfodol er mwyn cefnogi prosiectau ymchwil cydweithredol trawswladol.

**Eiriolaeth a Gwybodaeth:** Yng nghanol newidiadau fel trosglwyddo CCAUC i CADY, yr heriau ariannol o fewn y sector prifysgolion, Prif Weinidog newydd i Gymru, ac etholiad ar y gorwel yn San Steffan, pwysleisiodd yr Athro Thomas yr angen am eiriolaeth dros wybodaeth, arbenigedd, gwyddoniaeth, a dysgu hanesyddol er mwyn mynd i'r afael â heriau difrifol.

**Arweiniad a Phwyllgor Gwaith y Cyngor:** Mynegodd yr Athro Thomas ei ddiolch i'r Cyngor am lywodraethu a rheoli'r Gymdeithas yn effeithiol. Diolchodd yn arbennig i Mike Charlton a Terry Threadgold, aelodau'r Pwyllgor Gwaith a gwblhaodd eu tymhorau eleni, gan gydnabod eu cyfraniadau pwysig i'r Gymdeithas.

I gloi, pwysleisiodd yr Athro Thomas ymrwymiad y Gymdeithas i hyrwyddo addysg, dysg, astudiaeth academaidd, a gwybodaeth, gan atgyfnerthu eu cenhadaeth y Gymdeithas i greu budd i Gymru a thu hwnt.

### **13. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Nododd y Llywydd y byddai'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mercher 21 Mai 2025.

***Daeth y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ben am 04:00 pm.***

**ATODIAD**

**Derbyniwyd ymddiheuriadau ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol oddi wrth:**

Dr Lynn Williams	Yr Athro Jonathan Shepherd
Yr Athro Marco Marletta	Yr Athro Clare Bryant
Yr Athro Ann Heilmann	Yr Athro Ceri Davies
Yr Athro Chenfeng Li	Yr Athro Richard Carwardine
Yr Athro Ann ager	Yr Athro Angela John
Yr Athro Andrea Tales	Yr Athro Huw Pryce
Yr Athro Agustin Valera Medina	Yr Athro Huw Summers
Yr Athro Iwan Rhys Morus	Yr Athro Rattan Yadav
Yr Athro Kathryn Monk	Yr Athro Sheila Hunt
Yr Athro Pedr ap Llwyd	



# CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

## Ethol Cymrodyr a Chymrawd Er Anrhydedd newydd, 2024/25

Lansiodd y Gymdeithas ei Chylch Etholiad 2024/25 ar 01 Mehefin 2024 a gofynnwyd i'r Cymrodyr enwebu unigolion i'w hethol i'r Gymrodoriaeth. Ar yr un pryd, gwahoddwyd y Cymrodyr i gyflwyno argymhellion i'r Cyngor ar gyfer ethol Cymrodyr er Anrhydedd. Yn ystod cylch eleni, cyflwynodd 7.8% o Gymrodyr enwau i'w henwebu, sy'n gynydd bach iawn o 0.6% o 2023/24.

Mae'r meini prawf ar gyfer ethol Cymrodyr a Chymrawd er Anrhydedd wedi'u nodi yn Is-ddeddfau'r Gymdeithas, ac ar gael yma: <https://www.cymdeithasddysgedig.cymru/cymrodoriaeth/dod-yn-gymrawd/meiniprawf/>

### Enwebiadau ar gyfer Cymrodoriaeth er Anrhydedd

Cafwyd pedwar enwebiad ar gyfer Cymrawd er Anrhydedd eleni: Yr Athro Fonesig Jane Francis, Julia Gillard, Dr Kadiatu Kanneh-Mason, a'r Athro Edward Witten. Adolygodd y Cyngor yr enwebiadau a chytuno y dylid cyflwyno'r pedwar i'w hethol.

Derbyniwyd a chymeradwywyd pumed enwebiad ar gyfer Cymrodoriaeth er Anrhydedd gan y Cyngor. Fodd bynnag, gan na chadarnhawyd bod yr enwebiad wedi'i dderbyn cyn dyddiad cau'r bleidlais, bydd yr etholiad yn cael ei ohirio hyd gylch 2025/26.

### Enwebiadau ar gyfer Cymrodoriaeth

Ym mis Mehefin 2024, gwahoddwyd Cymrodyr i enwebu unigolion i'w hethol i'r Gymrodoriaeth. Cyflwynodd 54 o Gymrodyr gyfanswm o 67 o enwebiadau erbyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2024.

O'r 67 o Enwebeion, roedd 11 wedi'u henwebu'n flaenorol.

	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth	Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol	Diwydiant, Masnach, y Celfyddydau a Phroffesiynau	Cyfanswm
Ail-enwebwyd	5	2	4	11
Enwebiadau newydd	33	6	17	56
<b>Cyfanswm</b>	<b>38</b>	<b>8</b>	<b>21</b>	<b>67</b>

Roedd deg Pwyllgor Craffu yn gweithredu yn ystod y cylch etholiad. Eu rôl yw asesu'r enwebiadau a phenderfynu pa enwebeion y dylid eu hargymell i'w hethol.

Roedd pump o'r pwyllgorau (GTPMM1 i GTPMM5) yn cwmpasu maes academiaidd eang Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg a Meddygaeth (y mae'r Athro Rob Beynon yn Is-lywydd cyfrifol ar ei gyfer). Roedd tri phwyllgor (CDGC1 i CDGC3) yn cwmpasu maes academiaidd eang y Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (y mae'r Athro Helen Fulton yn Is-lywydd cyfrifol ar ei gyfer).

Roedd y ddau bwyllgor arall (DMCP1 ac DMCP2) yn cwmpasu Diwydiant, Masnach, y Celfyddydau a'r Proffesiynau. Gan nad oes Is-lywydd ar gyfer DMCP, rhannwyd y cyfrifoldeb rhwng yr Is-lywyddion CDGC a GTPMM.

Darperir rhestr lawn o aelodau'r Pwyllgor Craffu yn **Atodiad B**.

Yn 2024, cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant gorfodol ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor Craffu, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr. Mynychodd Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgor Craffu sesiynau ychwanegol a oedd yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau penodol. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, daeth yr holl Bwyllgorau Craffu ynghyd yn ystod y cyfnod rhwng 13 Ionawr – 31 Ionawr 2025.

Cyflwynwyd rôl aelod pwyllgor annibynnol i'r broses graffu eleni hefyd. Ei nod yw cynnig safbwynt o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant arbenigol ac allanol, hwyluso cysondeb ar draws pob un o'r deg Pwyllgor, a chynorthwyo'r Pwyllgorau i gynnal y broses graffu mewn modd teg, cydradd a chlir.

Fel y blynyddoedd cynt, cynhaliodd yr Is-lywyddion gyfarfodydd â Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn eu hardaloedd perthynol i feincnodi'r argymhellion, gyda'r ddau Is-lywydd yn cynnal cyfarfod meincnodi gyda Chadeiryddion y ddau Bwyllgor DMCP.

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i argymhellion y Pwyllgorau Craffu a'r Is-lywyddion a chymeradwyo rhestr o 56 o enwebeion i'w cyflwyno i'r Gymrodoriaeth gyfan, ar gyfer etholiad ffurfiol.

## Pleidlais y Cymrodyr

Rhannwyd papur pleidleisio a oedd yn cynnwys y 56 a enwebwyd fel Cymrodyr a'r 4 a enwebwyd fel Cymrodyr er Anrhydedd â'r Cymrodyr cyfredol ar 17 Mawrth 2025; y dyddiad cau i ddychwelyd y pleidlais oedd 7 Ebrill 2025.

Er mwyn cael ei ethol, rhaid i enwebai dderbyn cefnogaeth o leiaf 50% o Gymrodyr sy'n dychwelyd pleidleisiau dilys erbyn y dyddiad cau. At ei gilydd, dychwelwyd 295 o bleidleisiau dilys erbyn y dyddiad cau, sef cyfradd ymateb o 42.4%, ychydig yn uwch na'r 28% a gofnodwyd yng nghylch 2023/24.

Penododd y Llywydd ddau Gymrawd, Dr Anju Kumar OBE FRCOG FLSW a'r Athro Min Chen FBCS FEG FLSW, fel Craffwyr yr etholiad. Ar 08 Ebrill 2025, gwnaethant gyfrif y pleidleisiau a ddychwelyd ym mhresenoldeb y Clerc.

Cafodd 4 Cymrawd Er Anrhydedd a 56 o Gymrodyr newydd (hynny yw, pawb a oedd wedi'u cynnwys ar y papur pleidleisio) eu hethol. Rhestrir y Cymrodyr newydd a etholwyd yn **Atodiad A** y papur hwn.

Yn dilyn y tair blynedd diwethaf lle'r ydym wedi bod yn annog menywod i gael eu henwebu i'r Gymrodoriaeth, eleni roedd 19 o'r Gymrodyr newydd a gafodd eu hethol yn 2024/25 yn fenywod. Yn gyfran o 33.9% o'r 56 o Gymrodyr newydd, roedd hyn yn gynydd o'r 23.8% o Gymrodyr benywaidd a gafodd eu hethol yn 2023/24. Bellach, cyfran gyffredinol y Cymrodyr benywaidd o fewn y Gymdeithas yw 29%.

Eleni, nododd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr eu bod o gefndir lleiafrifol ethnig, o gymharu ag ychydig dros draean y llynedd.

## Croesawu a Chyflwyno'r Cymrodyr yn Ffurfiol

Bydd Cymrodyr a Chymrodyr er Anrhydedd a etholwyd yn ystod cylch etholiad 2024/25 ac sy'n bresennol yn y cnaud yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn cael eu croesawu i'r Gymdeithas a gofynnir iddynt lofnodi Rhôl y Cymrodyr, ynghyd ag unrhyw Gymrodyr sy'n bresennol nas derbyniwyd yn flaenorol.

## ATODIAD A

**Cymrodyr a Etholwyd Ebrill 2025****Cymrodyr Er Anrhydedd****Yr Athro Fonesig Jane Francis DCMG FRS**

Cyfarwyddwr, Arolwg Antarctig Prydain a Changhellor, Prifysgol Leeds

**Julia Gillard AC**

Cyn Brif Weinidog Awstralia a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Wellcome

**Dr Kadiatu Kanneh-Mason B.A.,Ph.D. Hon. FRAM**

Awdur, Addysgwr ac Eiriolwr dros Amrywiaeth mewn Cerddoriaeth Glasurol

**Yr Athro Edward Witten ForMemRS HonFRSE**

Athro Emeritws, y Sefydliad Astudiaethau Uwch ac enillydd Medal Field.

**Cymodyr**

<b>Yr Athro Anthony Mandal FHEA</b> Athro Diwylliannau Argraffu a Digidol, Prifysgol Caerdydd	<b>Dr Yan Wu</b> Athro Cyswllt yn y Cyfryngau a Chyfathrebu, Prifysgol Abertawe
<b>Dr Padma Anagol BA MA M.Phil PHD (Lond.) FRHistS</b> Darllenydd mewn Hanes Asiaidd Modern, Prifysgol Caerdydd	<b>Yr Athro Emmajane Milton NTF</b> Athro mewn Ymarfer Addysgol, Prifysgol Caerdydd
<b>Yr Athro Kerry Howell BSc (Econ) PhD</b> Athro, Prifysgol Northumbria	<b>Yr Athro Gordon Foxall FAcSS DSocSc PhD (Birmingham) PhD (Strathclyde) MSc (Open) MSc BSc (Salford) FBPsS FBAM FRSA CPsychol</b> Athro Ymchwil Nodedig, Prifysgol Caerdydd
<b>Yr Athro Ken Peattie</b> Athro Marchnata a Strategaeth, Prifysgol Caerdydd	<b>Yr Athro Nick Clifton FHEA</b> Athro Daearyddiaeth Economaidd a Datblygu Rhanbarthol a Chyd- gyfarwyddwr y Ganolfan Arloesi ac Adfywio Ranbarthol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
<b>Dr Peter Wakelin BA MSocSc PhD FSA</b> Awdur annibynnol, curadur ac ymgyngorydd, Hunangyflogedig	<b>Sïan Williams MCLIP</b> Pennaeth Ymgysylltu a Churadu Casgliadau Diwylliannol, Prifysgol Abertawe

<p><b>Dr Mahaboob Basha BEM</b> Rheolwr Cysylltiadau Allanol ac Ymgysylltu, Prifysgol Abertawe</p>	<p><b>Dr Manon Antoniazzi LVO</b> Clerc a Phrif Weithredwr, Senedd Cymru</p>
<p><b>Yr Athro John Mayberry DSc, MD, LLM, MSc, MB, BCh, BSc, FRCP, FFPH, FEBGH</b> Gastroenterolegydd Ymgynghorol, Ysbyty Princess Elizabeth Guernsey</p>	<p><b>Yr Athro Paul Matthews</b> Prif Weithredwr, Cyngor Sir Fynwy</p>
<p><b>Yr Athro Jadwiga Furmaniak MD PhD DSc</b> Athro Gwadd er Anrhydedd, Prifysgol Caerdydd</p>	<p><b>Yr Athro Sashin Ahuja MBBS, D'Orth. MS Orth, DNB Orth, MNAMS, FRCS, FRCS Orth, MSc Orth Engin</b> Llawfeddyg Sbinol Orthopedig Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro</p>
<p><b>Yr Athro Alan Fraser BSc MB ChB FRCPE FESC FEACVI</b> Cardiolegydd Ymgynghorol ac Athro Emeritws Cardioleg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Prifysgol Caerdydd</p>	<p><b>Dr Shannu Bhatia BDS, MDS, MFDS RCS (England), M Paed Dent RCS (England), FDS (Paed) RCS (England), SFHEA, MMedEd</b> Darllenydd Clinigol ac Ymgynghorydd er Anrhydedd Deintyddiaeth Peditrig; Llywydd Cymdeithas Deintyddiaeth Peditrig Prydain. Prifysgol Caerdydd a Chymdeithas Deintyddiaeth Bediatreg Prydain</p>
<p><b>Dr Sumina Azam BSc MBBS MPH FFPH</b> Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Iechyd Cyhoeddus Cymru</p>	<p><b>Dr Amanda Collis BSc (Hons) PhD FRSB</b> Cyfarwyddwr Gweithredol – Strategaeth a Rhaglenni Ymchwil, UK Research and Innovation – Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol</p>
<p><b>Agnes Xavier-Phillips</b> Meistr Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru a Dirprwy Arglwydd Raglaw Gwent, Wedi ymddeol</p>	<p><b>Yr Athro Arthur Lees D.Sc, F.I.Mech.E., F.Inst.P.</b> Athro Emeritws, Wedi ymddeol (Prifysgol Abertawe)</p>
<p><b>Dr Owain Rhodri Jones CPhys, MInstP</b> Pennaeth Adran Paladrau CERN, CERN, Genefa, Y Swistir</p>	<p><b>Yr Athro Hasmukh Shah MBBS, BEM</b> Meddyg Teulu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg</p>
<p><b>Ms Menai Owen-Jones CDir FIoD FRSA FIWA PGCert LLB</b> Prif Weithredwr, LATCH Elusen Plant Cymru</p>	<p><b>Yr Athro Delyth James PhD, MSc, BPharm (Hons), FRPharmS, FHEA</b> Athro Seicoleg Iechyd mewn Ymarfer Fferylliaeth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd</p>
<p><b>Dr Zubeyde Bayram-Weston MRes, PhD, FAS, SFHEA</b></p>	<p><b>Yr Athro Chris Hopkins FAHCS, FIPEM, CSci, CEng</b></p>

Uwch Ddarlithydd mewn Anatomeg a Ffisioleg, Prifysgol Abertawe	Pennaeth y Sefydliad Tritech ac Arloesedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
<b>Yr Athro Rhiannon Owen PhD MSc BSc FHEA</b> Athro Ystadegau, Prifysgol Abertawe	<b>Yr Athro Terry Jones BSc, MSc, DSc, MD.(Honoris Causa), FIPEM, FMedSci, Hon FRCR</b> Athro Gwadd, Prifysgol California, UDA
<b>Yr Athro Gwyn Gould</b> Athro Bioleg Celloedd, Prifysgol Strathclyde	<b>Yr Athro Steven Jones PhD, FRSC, FCAHS, FRCP(Edin)</b> Athro Geneteg Feddygol; Cyd-gyfarwyddwr a Phennaeth Biowybodeg, Canolfan Gwyddorau Genom, Prifysgol British Columbia, Canada
<b>Yr Athro Huw Jones BSc, MSc, PhD, FRSB</b> Athro Genomeg Drosiadol ar gyfer Bridio Planhigion, Prifysgol Aberystwyth	<b>Yr Athro Michael Morgan ScD, FRSA</b> Athro Niwrowyddoniaeth Weledol, Prifysgol Dinas Llundain
<b>Yr Athro John Lloyd PhD DSc FRPharmS</b> Athro Emeritws mewn Fferylliaeth, Prifysgol Sunderland	<b>Dr Arwyn Edwards BSc (Hons), PhD, PGCTHE, FHEA, FRGS</b> Darllenydd yn y Biowyddorau (Aberystwyth) a'r Athro II (UNIS), Prifysgol Aberystwyth a Chanolfan y Brifysgol yn Svalbard (UNIS), Longyearbyen, Norwy
<b>Yr Athro Tom Rippeth BSc (Hons), MSc, PhD, FRMetS, SFHEA</b> Athro Eigioneg Ffisegol, Prifysgol Bangor	<b>Yr Athro Philip Donoghue FRS</b> Athro Palaeobiolog, Prifysgol Bryste
